

www.kimkat.org/amryw/1_testunau/testunau_054_amrywieithoedd-y-gymraeg_1847_fdg-pdf_3873k.pdf



Gwefan Cymru-Catalonia
El web de Gal·les i Catalunya
The Wales-Catalonia website

AMRYWIEITHOEDD Y GYMRAEG.

Y Traethodydd, Ionawr 1847

Awdur: *dienw*

Tudalennau 1-16

Ceir y llyfr gwreiddiol (delweddau a'r testun electronaidd) yn y fan hyn:

Es pot veure el llibre original (imatges i el text electrònic) aquí:

The original book (images and electronic text) can be found here:

http://www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_054_amryw-ieithoedd-y-gymraeg_1847_1413k.htm



(delwedd 8112b)

Y TRAETHODYDD.

AMRYWIEITHOEDD Y GYMRAEG.

Nid oes un iaith yn y byd, mae yn debyg, yn cael ei siarad yn hollol yr un modd yn mhob ardal lle ei harferir; mae gwahaniaeth, mwy neu lai, rhwng pob talaeth, a rhwng pob cymydogiaeth. Mae amrywiol helyntion a dygwyddiadau yn tueddu i achlysuero hyn. Lle y byddo y gwahaniaeth yn fawr, gellir tybied fod didoliad o bwys wedi cymeryd lle rhwng llwythau yr un genedl i randiroedd pell oddiwrth eu gilydd, a bod pob ymgyfathrach wedi peidio rhyngddynt, a hyny er ys llawer o oesoedd. Mae y llwythau didoledig hefyd yn agored i ymgymysgu â chenedloedd eraill cymydogiaethol, a thebygu mwy neu lai i'r rhai hyny yn ol fel y byddo grym eu dylanwad. Os cânt eu darostwng gan eu cymydogion, a'u dwyn dan yr un cyfreithiau a llywodraeth, gwna hyny mewn amser gyfnewidiadau mawrion: a thrafnidiaeth a chydgymsgu mewn priodasau a barant gynnydd ar y cyfryw gyfnewidiadau. Mae manteision dysgeidiaeth mewn un iaith rhagor y llall yn effeithio i beri fod dylanwad mwy gan y naill ar y llall, fel y mae cenedl amddifad o fanteision dysg a gwybodaeth yn dueddol i efelychu cymydogion a fyddont yn fwy cyfoethog o'r manteision hyny. A lle byddo dysgeidiaeth yn ffynnu, mae yr iaith yn yr hon ei cyfrenir yn cael ei choethi a'i diwyllio. Yn ol y gradd o wareiddiad y byddo unrhyw genedl wedi ei gyrhaeddyd, eu dull o fyw, anghenion, tueddiadau, ac arferion, y ceir yn gyffredin fod tlodi ac annillynder neu helaethrwydd a thlysnï eu hiaith. Mal hyn, tybygem, y mae fod cynnifer o gangen- ieithoedd perthynol i bob gwlad a chenedl yn y byd; yr un iaith yn y dechreuad wedi ymranu yn llawer o wahanol gangenau, yn gwahaniaethu ryw faint oddiwrth eu gilydd, ac efallai y fam-iaith wedi llwyr golli o ran y siarad o honi yn ei phurdeb.

Felly y cawn fod yr hen Geltaeg, iaith trigolion cyntaf Ewrop, wedi ymranu yn amrywieithoedd lawer, megys, y Gymraeg, y Gerniweg, y Lydaweg neu Vrezonec, y Wendaeg, y Wyddelaeg, a'r Gaeleg; y rhai ydynt oll yn dangos arwyddion amlwg eu bod wedi deilliaw oddiwrth yr un fam-iaith ddechreuol; etto, drwy effeithiau amgylechiadau cyffelyb ag a nodwyd, maent oll yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn fawr. Ymddengys fod y Gymraeg a'r Lydaweg yn dwyn mwy o debygolrwydd i'w gilydd nag i'r Wyddelaeg a'r Gaeleg, a bod llawer mwy o berthynas rhwng y

[*Ionawr*, 1847.]

B

G3928

ddwy olaf â'u gilydd nag sydd rhyngddynt â'r lleill. Barna hynafiaethwyr oddiwrth hyn fod y Cymry a'r Gwyddyl wedi ymddëoli oesoedd lawer o flaen ymddidoliad y Cymry oddiwrth y Llydawiaid a'r llwythau eraill. Dywedir y gall y Cymry a'r Llydawiaid ddëall peth o siarad eu gilydd, ond nis gall Cymro a Gwyddel gynnal ymddyddan â'u gilydd am un peth yn y byd.¹

Mae hefyd amrywiaethau lawer yn perthynu i bob un o'r cangen-ieithoedd hyn. Gallem enwi y Lydaweg, i'r hon y perthyna tair neu bedair o amrywieithoedd, yn gwahaniaethu mwy neu lai oddiwrth eu gilydd o ran cynaniad ac o barth eu purdeb; megys cangen-ieithoedd Vannes, Leon, Treguier, a Quimper.² A thybygid fod y cenadon Protestanaidd Cymreig, gan nad ydynt yn enedigion o'r wlad hono, yn teimlo y cyfryw amrywiaeth yn yr iaith yn radd o rwystr yn eu hymdrech i bregethu yr efengyl i'r werin yn y modd mwyaf dëalladwy yn ngwahanol barthau y wlad. Effeithia yr amrywiaeth hyn yn fwy drwy fod can lleied o ysgrifenu yn yr iaith, ac o goledd arni, fel ag i ddwyn yr amrywiol briod-ddulliau hyn yn nes at eu gilydd, a'u cyfuno fel rhanau hanfodol yr un dafodiaeth.

Yr un modd am ein hiaith ninnau, y Gymraeg; perthyna iddi ei hamrywieithoedd. Efallai y gellir cynnwys yr amrywiaeth i gyd dan ddwy brif gangen, sef y Wyneddaeg a'r Ddeheubartheg. "Yn y Deheu," medd Theophilus Evans,³ "nid oes odid gwmwd na chantref, na wahaniaetha ryw ychydig yn yr iaith, nid yn unig wrth fod y werin yn rhoddi amryw seiniau i'r un geiriau, ond hefyd wrth alw ac enwi llawer o bethau ar wahan." Felly cawn fod Dyfed, Gwent, a Morganwg, yn amrywio oddiwrth eu gilydd fel y maent hefyd oddiwrthym ninnau yn y Gogledd. Yr un modd hefyd y gwahaniaethai Gwynedd a Phowys. Adnabyddir brodorion Llëyn a gwladyddion Cyfeiliog wrth eu lleferydd; er y sonir am "ynfydion" y naill⁴ a "gwirioniaid" y llall,⁵ etto, mae y gwahaniaeth rhyngddynt mor amlwg a rhwng Mon a Mynyw.

Y Saeson hefyd yn gystal a ninnau sydd ganddynt eu *dialects*, *twangs*, a *brogues*. Heblaw fod tafodiaeth Lloegr Goch yn gwahaniaethu oddiwrth eiddo yr Alban, mae pob sir yn amrywio yn nodedig mewn tön ac aceniad, fel y mae brodorion y naill a'r llall o honynt yn hawdd i'w hadnabod wrth eu llediaith, i'r sawl sydd yn hysbys o hyny.

¹ Gwel Dr. Pughe's "*Outline of the Characteristics of the Welsh*:"—tudal. 17.

² Gwel lythyr y Parch. D. Jones, yn y *Drysorfa* am 1838:—tudal. 110, 111, &c.

³ "Drych y Prif Oesoedd:"—tudal. 18; y chweched argraffiad.

⁴ Cyfeiriad at hen chwedl ddisail am ynfydion Cyfeiliog yn golchi eu traed mewn llyn, ac yn methu adnabod eu traed eu hunain, nes yr hapiodd i wr synwrol ddyfod heibio a chymeryd gwialen, yr hon yn fuan a'u dygodd i ymgydnabod bob un â'r eiddo ei hun. Felly, os oedd ynfydion yn Nghyfeiliog, yr oedd yno bobl gall hefyd yn medru taraw yn union ar fodd effeithiol i ddwyn y lleill i'w hiawn bwyll, heb eu hanfon i'r gwallgof dy.

⁵ Sef "gwirioniaid Aberdaron." Mae tarddiad y ddiareb lëol hon yn fwy o anrhyddedd i'r trigolion na dim arall. Llong o Ddyfed, rywbryd yn yr hen amser gynt, a chwythwyd i'r lân gan dymhestl yn Aberdaron; a'r trigolion, hwyntau, a wnaethant ymdrechion tra dyngareol a gorchestol er achub y dwylaw a diogelu eu heiddo, ac, fel y Melitiaid, a'u lletyasant yn rhywiogaidd. Y Dyfedwys, pan yn myned trwy Bwllheli ar eu taith tua thre, a ganmolent yn fawr y caredigrwydd a dderbyniasent, ac wedent yn iaith eu gwlad, "Pobl fach wirion iawn yw pobl Aberdaron," gan faddwl, yn ystyr gymhwys y gair, mai pobl dirion a diniweid oeddylnt. Hyn, ac nid eu hanwybodaeth, fel y gwag dybia rhai, oedd dechreuad ac yw gwir ystyr y ddiareb.

Mae genym anghreiffiau ysgrythyrol o beth cyffelyb i hyn. Yr oedd lleferydd Pedr yn ei gyhuddo, er maint a wadai, mai Galilead oedd efe. Yr oedd gwahaniaeth tafodiaeth rhwng y Galileaid a'r Ephraimaid, ac fe gostiodd yn ddrud i'r rhai olaf, yn nyddiau Jephthah, wrth rydau yr Iorddonen, pan gollodd llawer o honynt eu bywydau, am na fedrent swnio yr *sh* yn nechreu y gair "*Shibboleth*," eithr ei swnio yn *s*, er llithriced a fuasai eu tafodau i alw enwau drwg i gyffroi eu brodyr. Cymerwyd mantais ar y neillduolrwydd hwn yn eu tafodiaeth, i'w hadnabod. Pe buasai y Cymry yno, syrthiasent dan yr un trychineb, gan nad yw sain *sh* i'w gael yn ein hiaith, ac nis gall Cymro uniaith ei swnio heb anhawsdra, oddigerth dan un amgylchiad, sef pan fo y deuseiniaid *ia*, *ie*, *io*, *iw*, *iy*, yn dilyn *s*, megys yn y geiriau *siarad*, *sieryd*, *sionc*, *siwr*, *ffasiynau*, *llystiau*, *gweision*, &c., ond nid pawb a allant ei swnio mewn geiriau fel hyn. Un o'r anhawsderau mwyaf ar ffordd y Cymro i ddysgu Saesoneg yw swm yr *sh*; ac y mae ambell un wedi methu ei gyrhaeddyd, ac heb allu i'w wahaniaethu oddiwrth sain yr *s*, er y gallant siarad yr iaith yn lled dda yn mhob ystyr arall: ond yn lle *ffish*, dywedant *ffis*; yn lle *shilling*, *silling*. Yr ieuanc er hyny a ddaw iddo yn fuan.

Yn awr, tybygid fod ymholiad yn cyfodi yn naturiol, Beth yw yr achos gwreiddiol o amrywieithoedd y byd? Oddiwrth ba beth y mae yn deilliaiw? Beth sydd yn peri y fath dueddiad mewn ieithoedd yn gyffredin? Ofer i ni grwydro yn anialweh dychymygion; nid yw athroniaeth yn alluog i gael allan y dirgelwech; awn ynte at ffynnon gwybodaeth yn uniongyrchol. Y Bibl, y Bibl yn unig, a rydd oleuni boddlonawl ar hyn. Amlwg yw yn ngoleuni hwn, mai effaith y cymysgiad gwyrthiol ar iaith y byd yn Babel ydyw, yn cyrhaeddyd trwy yr oesoedd, yn parhau i weithredu yn rymus, er yn arafaidd, ar holl ieithoedd y ddacar. Deillia holl amrywiaeth ieithoedd a thafodiaethau y byd oddiwrth y cymysgiad a'r wasgarfa hynod a fu yno. "Canys," fel y dywed Charles Edwards,¹ "gan fod yn awr gymaint o'r un geiriau, ac o'r unrhyw sain gan y llythyrenau yn mysg cenedloedd ac ieithoedd dyeithrol i'w gilydd, y mae yn hygoel mai yr un iaith oedd ar y cyntaf gan bawb, megys y dadgan Moses;—nad yw yr amrafael ieithoedd ag sydd amlaf yn y parthau hynotaf o'r byd, ond yr un iaith wedi ei chymysgu, a'i thafu wyneb a gwrthwyneb, allan o'r drefn gyntaf, gan ddynion wedi amhwylo, a ddechreuent ambell air yn ei ddiwedd, ac a'i diweddent yn ei ddechreu. Dechreuent hefyd rai geiriau yn eu canol, a tharawent eu deupen ynghyd, a thafent sillafau geiriau eraill y naill ar draws y llall, fel na wyddid mai yr un geiriau oeddent." Felly gall ein llygaid weled, ein clustiau glywed, a'n meddyliau deimlo, effeithiau y farn ddwyfol hono, a ddisgynodd ar ddynolryw gwrthryfelgar er ys miloedd o flyneddau, hyd ya nod yn yr amrywiaeth sydd yn ein hiaith ein hunain, yn y gwahanol ddulliau yn ysgrifeniad a llafariad yr iaith, ac yn yr anhoffder a deimlwn yn ein meddyliau wrth ymadroddion a seiniau anghynnefin i ni, yn enwedig os bydd eu hystyr yn anhysbys, heb sôn am yr anghyfleusdra o drigo ynghanol cenedloedd o ieithoedd hollol wahanol i'r eiddom ni.

¹ "Y Ffydd Ddiffuant, neu Hanes a Rhinwedd y Ffydd Gristionogol," gan Charles Edwards:—tudal. 330, &c.; y chweched argraffiad.

Ymddengys wrth ysgrifeniadau mor hen a'r ddeuddegfed a'r drydedd-ganrif-ar-ddeg, fod yr amrywiol briod-ddulliau perthynol i wahanol barthau Cymru yn hanfodi yn yr oesoedd hyny yr un modd ag y maent yn awr. Dichon i'r amrywiaethau hyny ar y cyntaf gyfodi, mewn rhan, oddiwrth fod y wlad wedi ei rhanu yn yr hen oesoedd yn llawer o fân dywysogaethau, a'r rhai hyny yn fynych yn elynol i'w gilydd, ac heb nemawr ymgyfathrach rhyngddynt. Dyfodiad dyeithriaid i fysg y naill lwyth neu y llall a effeithiai mewn amser radd o wahaniaeth yn llafariad yr iaith. Dylid cofio fod y bobl gyffredin yn y cynoesoedd yn ymddibynu bron yn hollol ar eu harglwyddi, ac wrth eu galwad ar bob achlysur, a llawer fel anifeiliaid yn feddiant iddynt; yr oedd yn naturiol i'r rhai hyn efelychu eu harglwyddi yn eu dull o siarad fel mewn pethau eraill. Efallai fod peth o'r gwahaniaeth a ganfyddir rhwng parabl trigolion Dinbych a Fflint a phreswylwyr y rhan arall o Wynedd wedi tarddu oddiwrth ymfudiad Gwŷr y Gogledd, sef Cymry Ystrad Clwyd yn yr Alban (wedi eu gorchfygu gan eu gelynion, a cholli o honynt eu brenin), a'u hymsefydliad yn yr ardaloedd rhwng Conwy a Dyfrdwy, yn y nawfed ganrif, drwy ganiatâd Anarawd, brenin Gwynedd, ar yr ammod o fod iddynt ymlid ymaith y Saeson oeddynt wedi trawsfeddiannu y wlad, yr hyn "a wnaethant yn ddibafarch;" a diammhau fod hiliogaeth y bobl ddewrion hyny yn parhau yno hyd heddyw.¹

Amlwg yw fod tuedd yn yr amrywiaethau ieithyddol hyn i barhau, os nad i gynyddu, hyd oni cheir rhyw safon, wrth ba un y gellir profi priodoldeb neu amhriodoldeb unrhyw ddull neu arferiad o lefaru. Er nad yw ddichonadwy cael un safon perffaith a digyfnawid, gan fod pob peth isloerawl yn agored i gyfnewidiadau, etto, mae cael un da yn fuddiol tuag at gadw purdeb iaith, ac i attal, rheoleiddio, a lleihau yr amrywiaethau o dafodiaeth daleithiol a llygriadau llëol. Yn Lloegr, ymddengys mai y llŷs a'r senedd yn y brifddinas, yn benaf, sydd yn rhëoleiddio yr iaith; a thebygol yw y bydd i ymdaeniad addysg gyffredinol trwy y deyrnas, yn raddol wisgo ymaith yr amrywiaethau taleithiol yn lled lwyr. Gyda ni, cyfieithiad awdurdodedig y Bibl yw safon purdeb y Gymraeg, neu o leiaf a gydnabyddir felly yn awr. A pho agosaf y trefnir ymadroddion, y seinir, ac yr ysgrifenir, i ddull y Bibl, goreu oll, a mwyaf cymeradwy fydd gan bawb o berchen dëall i farnu; er y gellir defnyddio llawer o eiriau a dywediadau sathredig yn y wlad, a rhai ymadroddion godidawg, nad ydynt idd eu cael yn y cyfieithiad, am nad oedd achos am danynt, ond a gyttunant yn dda â'r geirweddïad a ddilynwyd ynddo.

Pan fyddo y gwahaniaeth yn llygriad ar yr iaith, mae yn swnio yn ddwng yn nghlustiau trigolion ardaloedd lle nad yw y cyfryw lygriad yn arferedig, er y gall y rhai hyny fod yn feius mewn dulliau eraill o ymadroddi. Buddiol fyddai i areithwyr cyhoeddus fedru cynanu yr iaith yn gywir a pharabl-bêr, ac nid yn null llygredig eu gwahanol ardaloedd; a thra manteisiol hefyd i athrawon yr Ysgolion Sabbothol, fel y gallont addysgu ieuenctyd y wlad i seinio yn briodol a syml wrth ddarllen yr ysgrythyrau. Tuag at fod o ryw gynnorthwy yn hyn, amcanwn nodi allan y prif am-

¹ "Hanes Cymru," gan y Parch. Thomas Price, (*Carnhuanawc*):—tudal. 325, 326, 398. "Warrington's History of Wales":—pp. 229—231. Vol. I. Fourth edition.

rywiaethau yn nhafodiaeth gwahanol barthau Cymru benbaladr, mor belled ag y daethant dan ein sylw : lle byddo y gwahaniaeth yn Gymreigaidd, ymdrechwn i'w esgusodi ; ond os yn feius, rhoddwn y cyfarwyddyd goreu a fedrwn er ei ddiwygio.

I. Y gwahaniaeth cyntaf y sylwn arno sydd yn nghynaniad rhai o'r llafariad. 1. Mae y lafariad *a*, mewn geiriau unsill hirsain, a rhai geiriau lliosill pan y byddo dan aceniad, megys, cân, cās, glân, mab, tad, tân, sâl, mwynhad, parha, &c., yn cael ei swmio mewn rhai ardaloedd yn gyffelyb i'r *a* fain Seisonig yn *cane, case, sale, tale, &c.*, yr hon sydd yr un a'r *e* Gymreig. Hefyd troir y deuseiniad *ae* yn *ei*, yn mae, gwaed, gwael, &c., megys ped ysgrifenid, *mêi, gwêid, gwêil, &c.* Amlwg yw mai yr un swm yn hollol sydd i'r *a* yn tân ac yn tàn, ond ei fod yn y blaenaf yn hir ac yn yr olaf yn fyr : ac wrth chwanegu at y gair mae yn amlycach fyth ; fel hyn, tân, tanodd ; tân, tanau, tanio ; mân, manau ; mân, manaf ; bâr, bârau ; bâr, barus.

Bro Trefaldwyn, a rhanau o Feirion, yn y Gogledd, sydd fwyaf yn y bari hwn ; ac yno ystyrir yn brydferthwch siarad *yn fain*, fel y dywedir, ac nid *yn llydan* fel yn y rhanau eraill o Wynedd a Phowys. Etto dilys yw mai yr *a* lydan, agored, yw y wir sain Gymreig, ac nad yw y gwahaniaeth o hir a ber, neu leddf a thalgron, ond mewn hyd yn unig, fel y dangoswyd uchod, ac nid mewn sain ; a hyderwn na ddilynnir maldod y Baldwyniaid¹ yn y llygriad masw hwn, oblegid y mae yn gwanychu yr iaith yn fawr, ac yn ei hysbeilio o un o'i seiniau cysefin a godidog. Byddai yn werth myned ar bererindod o gyffiniau Pumlumon a Chader Idris, i ororau y Wyddfa a Moel Famau, i glywed rhianod llednais y parthau hyn yn swmio y lythyren *a* yn ei sain bur ei hun. Ond rhag na cheir adeg i hyn, hawdd yw dyfod idd ei sain gywir wrth ei swmio o flaen *i, u*, neu *w*, fel yn y geiriau rhaid, cais ; aur, haul ; awr, hawl, haws, &c.

Mewn rhai ardaloedd, swmir y lafarog hon gyda rhyw fath o leddfriad, megys *ea*, mewn geiriau o'r fath a ganlyn, tad, *tead* ; mab, *meab* ; tân, *tean* ; &c. Y rhai ydynt yn cofio yr hen bererin duwiol Edward Goslet yn pregethu, a wyddant am y dull digrifol y swmiai efe y geiriau hyn a'u cyffelyb, canys yn llediaith ei fro ei hun (Gwent) yn hollawl y llefarai efe.

2. Yn rhai parthau o Wynedd, troir *e* yn *a*, mewn geiriau lliosill, pan na fyddo dan aceniad ; megys, aber, *abar* ; adeg, *adag* ; cangen, *cangan* ; hanes, *hanas* ; yfed, *yfad* ; rhywbeth, *rhywbath* ; penbleth, *penblath* ; &c. : ac yn y gwrthwyneb, troir *a* yn *e*, yn yr un sefyllfa ; megys, allan, *allen* ; ardal, *ardel* ; attal, *attel* ; dinas, *dines* ; teyrnas, *teyrnes*, &c. Mae y gwall hwn yn arwain i gymysgu amserau y perwyddiaid, megys rhoddi y dyfodol am y gorphenedig, a'r gorphenedig am y tragorphenedig ; fel hyn, *gwnaethant* yn lle *gwnaethent*, *daethant* yn lle *daethent*, *dywedasant* yn lle *dywed-*

¹ Cymerwn yma gyfleusdra i unioni camwri sydd wedi llithro yn ddiweddar i arferiad yn rhai cylchgronau Gymreig, yn ysgrifeniad yr enw Trefaldwyn, gan ei dalfyrn yn "Maldwyn." Y gwreidd-geiriau ynt Tref-Baldwyn (oddiwrth enw rhaglaw Normannaidd y cyffiniau, yr hwn a adeiladodd y castell yno, yn amser Gwilym y Gorogynydd), ac nid Tref-Maldwyn, yr hyn nid yw air yn y byd, am a wyddom ni. Mewn cyfansoddiad, ynnwidia *b* yn *m* ar ol yr arddodiaid *yn* ; megys, "Aromsonu wythnos yn Maldwyn." Yn y sefyllfa hon y mae yn gywir, ond ei fod yn dalfyredig. Nid oes, hyd y gwyddom, un sail i dadogi yr enw odidiwrth Tref-Moeldwyn. Odidiwrth Roger de Montgomery, un arall o'r arglwyddi Normannaidd, yr hwn a ailadeiladodd y castell, y deillia yr enw Seisonig *Montgomery* a *Montgomeryshire*.

asent, &c. Clywsom ŵr dēallus unwaith yn darllen *Act.* ii. 44: "A'r rhai a gredent oll oeddynt yn yr un man;" gan swnio *gredent* yn *gredant*, yn ol arfer y cwmwd yr oedd yn byw ynddo; ac er fod ei glust yn ei hybu, nad oedd dim synwyr yn y darlleniad felly, etto nis gallai ddirnad yn mha le yr oedd y gwall. Ychydig o wybodaeth ramadegol, ac o gywir gynau-iad a fuasai yn ei gadw rhag yr amryfusedd. Diwygir y bai hwn wrth sylwi ar lythyreniad geiriau, a'u cynanu yn ol hyny.

3. Gwall cyffredinol yn Nyfed a rhanau o Bowys yw esgeuluso gwahaniaethu rhwng y llafariad *i*, *u*, ac *y*. Dan rai amgylchiadau, gwnai *i* y tro iddynt yno am y tair, megys yn y geiriau canlynol, *du*, *di*; *cu*, *ci*; *drud*, *drid*; *pur*, *pir*; *hun*, *hîn*; *lludded*, *llidded*; *mynyd*, *minid*; *cŷn*, *cîn*; *dyn*, *dîn*; *hyn*, *hîn*; *llyn*, *llîn*; *yw*, *iw*; *byw*, *biw*; *ŵy*, *wî* (ll. *wie*); *hyny*, *hyni*; *cyflawn*, *kifiawn*; *cybydd*, *kebidd*, neu *cebydd*; &c. Dylid sylwi fod gwahaniaeth hanfodol rhwng *i* ac *u*, amlwg i bawb sy wedi ymgynnesfuo â'u seiniau priodol, ond anhawdd ei roddi ar ddēall i eraill, wrth fod y glust o ddifffyg ymarfer yn analluog i wahaniaethu. Mae yn llwyr annēalladwy i Saeson, gan nad yw *u* idd ei chael yn eu hiaith.

Am y lafariad *y*, dylid cofio fod iddi ddau sain, y rhai er mwyn dynodiant a alwn yn *gysefin* a *dirprwyol*. Ei sain gysefin a glywir, mewn geiriau unsill, yn y rhai canlynol yn unig, *sef*, *my*, *fy*, *dy*, (*lleddf*); *ydd*, *ym*, *yn*, *yr*, *ys*, *dyd*, *dyt*, *myn*, *syr*, (*talgron*): ac yn nesaf yn mhob sefyllfa mewn geiriau lliosill ond y sill olaf; megys, *cyflyrau*, *prydyddion*, *ynysoedd*, *cynnyddu*, &c. oddieithr fod y rhagddod *cyd*, pan yn gofyn pwyslais, yn amrywio oddiwrth y drefn hon, megys yn *cydymgymysgu*, *cydymgysylltu*, *cydymlynu*, &c. a'r deuseiniaid *ey* ac *wy*, megys yn *teyrn*, *teyrnas*, *rhwymau*, *bwydydd*, *ffrwytho*, &c. Ei sain ddirprwyol sydd yr un yn gymhwys a'r lafariad *u*, yr hyn a gymer yn mhob geiriau unsill, oddieithr y rhai a nodwyd uchod, ac yn y sill olaf i bob gair lliosill; megys, *byd*, *bys*, *dyn*, *hŷn*, *gwŷn*, *cŵyn*, *gwŷr*, *gŵyr*, (*lleddf*); *gwŷn*, *hyn*, *llym*, *mŷn*, *sŷn*, (*talgron*); *canlyn*, *ennyn*, *eryr*, *telyn*, &c. megys ped ysgrifenid *bud*, *bus*, *dun*, *gwun*, *llŷm*, *sŷn*, *ennun*, *telun*, &c. Mae ei dau sain yn glywedig yn hyny, *llythyr*, *myfyr*, *pybyr*, *ystyr*, &c. Yn y frawddeg ganlynol, ceir addysg i seinio yn briodol yr *u* a'r *y*—"Dyt! du yw dy dŷ di, y dyn, ac nid gwyn."

Yn awr, y mae rhywun yn barod i ofyn, Paham nad ysgrifenid *u* yn lle *y* yn y cyfryw amgylchiadau ag y maent o'r un sŷn, fel na byddo dim ond un sain i bob llythyren yn yr iaith? Yr ateb yw, fod teithi yr iaith yn gwarhadd hyny, yr hyn a ymddengys yn amlwg wrth yr hyn a ganlyn. Nid yw *u* byth yn newid i *y* pan estyner gair; megys, *du*, *duaf*; *cur*, *euro*, *curio*; *llun*, *lluniau*; *mur*, *muriau*; *sur*, *surion*; *awdur*, *awduron*, &c. ond sain ddirprwyol yr *y* a ddychwela idd ei sain gysefin bob amser, oddigerth yn y deuseiniaid *ey*, *oy*, *wy*, pan chwaneger at air; fel *hyn*, *dyn*, *dynion*; *bŷr*, *byraf*; *sŷn*, *synu*; *ynfyd*, *ynfydu*; *ystyr*, *ystyried*; *eithriad*, *teyrn*, *teyrnas*; *gloyw*, *gloywon*; *cŵys*, *cwysau*. Gwir y buasai dodi *u* yn lle *y* yn y geiriau hyn a'u cyffelyb yn symud yr anghyfleusdra o fod dau sain i'r un lythyren, yr hyn nid oes i un lythyren arall yn ein hiaith; a gwelsom gynnygiad neu ddau am y fath gyfnewidiad yn ein horgraff, y rhai a fuant aflwyddiannus; canys, fel y mae yn amlwg, gorbwysid y fantais gan y tywyllweh a dallai ar dadogaeth geiriau. Chwithig ac anghelfydd iawn fyddai ysgrifenu, "dun gwun llum a ofun am ud," yn unigol; a "dynion gwynion llymion a ofynant am ydau," yn lliosog; gan fod perthynas y geiriau drwy y fath

G3933

lythyreniad yn cael ei lwyr orchuddio. Hefyd, dyddymai y gwahaniaeth rhwng geiriau o'r un sain ond o wahanol ystyr; megys, brud (oes-lyfr), bryd (meddwl); clud (mèn, càr), clyd (cynhes); hun (cwsg), hŷn (henach); llun (delw), llyn (o ddwfr), &c.

Gwelir oddiwrth hyn mai gwall yw swnio *u yn y*; megys, *cyro yn lle curo*, *pyrwr yn lle purwr*, *syrion yn lle surion*, *rhaglyniaeth yn lle rhagluniaeth*. Mae y bai hwn o ran cynaniad yn un o'r rhai mwyaf rhodresgar mewn coeg-areithyddiaeth, fel pan ddywedir *creadyried pechadyrus, du enw, du ogoniant, du wyneb*, &c. mewn dynwarediad o ryw Ddeheuwr hyawdl; yn lle crëaduriaid pechadurus, dy enw, dy ogoniant, dy wyneb. Ond yr ydym yn cofio y ffoledd hyn yn fwy cyffredin nag yw yn awr; mae cenedl yr *Hwyntwys* gogleddol yn diflanu, dybygem, o dipyn i beth.

4. Sylwn yn nesaf ar rai gwallau eraill yn seiniad y llafariad, a ffynant mewn gwahanol ardaloedd, ac yn benaf yn y Deheudir; megys, *troi ae yn a*; *bla'n, lla's, ma's, gwa'd*, yn lle blaen, laes, maes, gwaed: *ai yn au ac e*; *bauch, brauch, byddau, rhodie*, yn lle baich, braich, byddai, rhodiai: *au yn ou*; *dou, clou, gou, houl*, yn lle dau, clau, gau, haul: *i ac y yn ei*; *rhagreithiwr, weineb*, yn lle rhagrithiwr, wyneb: *o yn w*; *trued yn lle troed*: *oe yn o*; *cro's, llo'r, o'n, po'n*, yn lle croes, lloer, oen, poen: *oe yn oi*; *coid, oin, poith*, yn *fin-fain* ryfeddol, yn lle coed, oen, poeth: *oe yn ou*; *oud, ffroun, pour*, yn lle oed, ffroen, poer: *wy yn w*; *cwmms, cwmpo, rhwmo*, yn lle cymhwys, cwmpo, rhwmo. Talfyrir *ae ac oe yn a ac o*, yn fynych gan brydyddion er mwyn odli; megys, *bla'n* i odli â glân, *ma's* â gras, *erio'd* â bod, clod, &c. Efallai fod hyn yn oddefol mewn prydyddiaeth rydd, oherwydd prinder geiriau cyfodlaidd, fel yr arferir rhai deuseiniaid eraill, megys *ae, ai, ac au*, i gydodli yn gwae a bai, maes, parhaus, &c. yr hyn sy lawn gystal ag *i ac u* yn tir a pur, rhin ac un. Etto, barna rhai mai gwell a harddach i'r golwg fyddai ysgrifenu y deuseiniaid yn llawn, hyd yn nod pan eu harferir fel hyn; maes, oen, erioed, ac nid *ma's, o'n, erio'd*.¹

5. Cyn gadael y llafariad, sylwn ar un peth ag sydd yn nôd o wahan-iaeth hanfodol rhwng y Wyneddaeg a'r Ddeheubartheg; sef, fod amryw eiriau unsill, a gyfrifir yn fyrion yn y Gogledd, yn cael eu swnio yn hirsain yn y Deheubarth; ac, yngwrthwyneb, fod amryw eiriau a gyfrifir yn fyrion yn y Deheubarth, yn hirsain yn y Gogledd. Gosodwn yma restr o honynt. Y rhai hyn a swmir yn gyffredin yn fyrion yn y Gogledd, ac yn hirion yn y Deheudir: eb, heb, cw, twb; bid, nid; sef; rhag, nag (*gorair a chysylltiad*); dil; call, dall, gwall, llall, pall, gwell, pell, gwill, mill, pill, coll, moll, toll, gwyll; nas, nes, nis. Y rhai canlynol ydynt hirion yn y Gogledd, a byrion yn gyffredin yn y Deheudir; gallt, gwallt, hallt, mallt, dellt, gwellt, melt, bollt, hollt, mollt, swllt, gwyllt, myllt; hesb, gwasg, pasg, tasg, hesg, llesg, pesg, gwisg, plisg, rhisg, llosg, cwsg, dysg, gwrys, gwysg, mysg; gast, cest, crest, flect, cist, Crist, dist, trist, bost, cost, rhost, tost, clust, ffust, crwst, gwst, ffrwst, trwst, cyst, pyst, tyst; at y rhai efallai y gellir chwanegu oll, holl, a byth, a swmir weithiau gan rai yn fyrion.

Yn awr, pwy a feiddia benderfynu rhwng y Wyneddaeg a'r Ddeheubartheg, pa un sydd gywir yn hyn? Hawdd yw hōni cywirdeb un, a beio anghywirdeb y llall, ond profi y naill neu y llall felly yw y pwnc. Hyn nis meiddiwn ni anturio arno. Barnwn yn hytrach mai gwell yw i'r ddwy chwaer uchelyr, y ddwy efelles unoed, ymostwng i gydoddef a chyd-

¹ Gwel yn helaethach ar hyn yn "Y Traethodydd"—tudal. 378. Llyfr ii.

ddwyn â'u gilydd yn gariadus; hyny yw, "cyttuno i wahaniaethu" yn y mater yma. Gan nad oes un acèn-nod yn cael ei arferyd gyda'r cyfryw eiriau, ymddengys fod hyn, o fwriad, wedi ei adael yn anmhenodol; gan nad yw eu swnio yn hir neu yn fyr yn arwain i ddim amwysedd. Eisieu iawn olygu y gwahaniaeth hwn a barodd dipyn o fethu cydweled rhwng ysgrifenywyr dysgedig yn y "Gwladgarwr," rai blyneddau yn ol; sef "Cymro Llwyd," (*Deheuwr*, fel yr ymddengys) o un tu; "Tydecho," a'r Golygydd, (*Gogleddwyr*) o'r tu arall.¹ Ond iawn i ni gydnabod i ni dderbyn gradd o gymhorth ar y pen hwn oddiwrth eu llafur hwy.

II. Mae amrywiaethau llëol yn nhafodiaeth y wlad yn tarddu hefyd—

1. Oddiwrth gynaniad anghywir y ddwy gydsain *c* ac *g*, o flaen y llafariad *a*, *e*, *i*, ac *u*; swm *c* yn fynych fel *ci* neu *k*, ac *g* yn *gi*. Yn lle canys, dywedir *ci*anys (*kanys*); caws, *ci*aws; cenedl, *ci*enedl; tad cu, tad *ci*; cŷn, *ci*n; gair, *gi*air; gem, *gi*em. Clywir ambell un yn darllen dywediad fel hwn, "A'r cadarn fydd fel carth," megys pe ei hysgrifenid, "A'r kadarn fydd fel karth," yn llusgenaidd ddigon felly. Nis gwyddom am un gair yn cael ei lurgunio i gynnifer o ffurfiau yn fwy nag enw y grawn cyffredin, ceirch, fel arall, *keirch*, *cerch*, *kerch*, *cyrch*, *circh*, a pha beth etto? Dyma chwe' dull am yr un gair, ond y cyntaf yn unig sy gywir. Dylai *c* ac *g* gael yr un sain o flaen yr holl lafariad ag sydd iddynt o flaen *o*, *w*, *y*, *l*, *n*, ac *r*.

2. Peth arall a wna wahaniaeth yw gadael allan rai llythyrenau heb eu swnio, neu chwaneu ambell lythyren heb ei heisieu; megys y gwelir wrth y cyferbyniad canlynol rhwng tafodiaeth y ddwy dalaeth:—

GWYNEDD.	DEHEUBARTH.	GWYNEDD.	DEHEUBARTH.
boddlon, (<i>bodd-</i> <i>lawn</i>),	bo'lon.	ein natur,	ein nhatur.
cyhoeddiad,	cyhoeddad.	newydd,	newy'.
cymdeithas,	cymdeithias.	tywydd,	tywy'.
misol,	misiol.	i fyny,	i fynydd.
chwech,	hwech.	oeddwyn,	o'wn.
chwe'llath,	hwech-llath.	oeddem,	o'em.
chwedleua	hwedleua.	rhoddes,	rho'ws.
ei mab, (<i>hi</i>)	ei mhab.	tra fydddech,	tr'ech.
ei nai, (<i>hi</i>)	ei nhai.	tra fyddo,	tr'o.
		yr iaith	y iaith

"Tafarn hwddlyd," yw "tafarn chwyddlyd." Yr hen ddiarebion hyn o eiddo y Deheuwyd: "Hwibon i faban, arad i ŵr;" "Hwareuid mab noeth, ni hwery mab newynog;" yn y Gogledd a barablid fel hyn; "Chwibon i faban, arad i ŵr," a "Chwareued mab noeth, ni chwery mab newynog." Yn y gwrthlywneb etto, "Gieir a chwied" a wedant yn y Deheudir, ond yn Ngwynedd, "ieir a hwyaid;" unigol, *gi*ar, iâr; *chwiaden*, hwyaden. Tra beis y dywed rhai Gogleddwyr, *diffot* am diffodd, diffoddlyd; *rhoid* am roi neu roddi.

3. Y gwahaniaeth nesaf a ddaw oddiwrth gamgyflëad llythyrenau mewn geiriau: *dd—f*, *tangneddyf*, yn lle *tangnefedd*; *dd—l*, *cywiddyl*, yn lle *cywilydd*; *giddyl*, yn lle *gilydd*; *n—f*, *onfi*, yn lle *ofni*; *cenfi*, cefnu; *llynfi*, llyfnu. Yn rhai manau clywir *wmed* a *gwymed*, yn lle *wyneb* a *gwyneb*. Nid yw hyn angen na "rhoddi y càr o flaen y cefyl;" ond cfallai mai cithriad barddonol yw *uddyl* yn lle *ufudd* neu *ufydd*:—

¹ Gwel y "Gwladgarwr." Cyfrol v. am 1837—tudal. 67, 239, 294.

"Yn eiddil blentyn uddyf."

Dewi Wyn.

4. Achos arall o wahaniaeth yw estyn geiriau yn afreidiol : megys,

cefn	cefen	oehr	ochor
drachefn	drachefan	teml	temel
llestr	llester	trefn	trefen
llyfr	llyfyr, llyfur	syml	symyl
ofn	ofan	ystorm	ystorom

III. Mae gwahaniaeth hefyd yn yr arferiad o enwau a rhagenwau ; megys,

1. Yn nherfyniadau lliosog enwau : (*au*) penau, *pena*, *pene* : (*iau*) dyddiau, *dyddia*, *dyddie* : (*aid*) detaid, *defed* ; llygaid, *llyged*, *llygada* : (*iaid*) offeiriad, *offeiried* : (*ion*) "*dynon ceimon, byron, bach*," yn lle, "*dynion ceimion, byrion, bach*:" (*ed*) merched, *merchaid* ; pryfed, *pryfaid* : (*oedd*) dyfroedd, *dyfrod* ; moroedd, *morodd*. Hefyd, lloi, *lloia* ; adar, *drynod* (h. y.) *aderynod*, &c. Llygriad enbyd yw doddi *s* at derfyniad lliosog geiriau ; boneddigion, nid *boneddigions* ; gweithwyr, nid *gweithiwers* ; cregin, nid *cregins*, a ddylid ddywedyd.

2. Yn nherfyniad a threigliad rhai enwau gweiniaid ; megys, (*aidd*) mwynaid, *mwynedd* ; peraid, *peredd* ; (*ain*) llydain, *llyden* ; bychain, *bychin*. Dywedir yn Ngwynedd, "*dynes bach*," "*geneth bach*," "*eglwys bach*," ond yn Mhowys a Deheubarth, "*dynes fach*," "*geneth fach*," "*eglwys fach*." Y cydseiniaid cyfnewidiol, mewn ansodd-eiriau, a gymerant y sain ysgafn i gyttuno ag enwau benywaidd o'r rhif unigol ; megys, gwraig *ddoeth*, merch *lân*, gwisg *wên* ; felly cywirach yw "*dynes fach*" na "*dynes bach*." Etto, y Deheuwyr a wedant, "*dau gau dyst*," "*yn gau dystion*," "*yn go dda*:" mwy rheolaidd yw, "*dau au dyst*," "*yn au dystion*," "*yn o dda*." Hefyd, hwy wedant, "*lled na'r ddaear*," "*lled na'r môr*:" ond dywed Gwyneddigion, "*lletach na'r ddaear*," "*lletach na'r môr*."

3. Mae cymysgu rhywiau yn achos arall o wahaniaeth. Trwsgl ddigon y dywedai un, "Y drydydd adnod o'r bedwerydd bennod o Ail Lyfr Samuel." Mae cyfnewidiad y cydseiniaid dechreuol *t*, *p*, *u*, idd eu sain ysgafn *d*, *b*, *l*, yn arwyddo y rhyw fenywaidd, ond mae y terfyniad *ydd*, a'r gair *llyfr*, yn eu gwrthdaraw, gan eu bod o'r genedl wrywaidd. Cywirach gan hynny fyddai dywedyd (yn ol canon Arfonwyson¹) "Ail Llyfr Samuel, y bedwaredd bennod, a'r drydedd adnod." Tybia rhai er hynny fod *aíl* yn eithriad i'r rhifiadau trefniadol eraill, yn cael ei ddilyn gan y sain ysgafn heb wahaniaeth rhyw ; megys, *aíl ddyn*, *aíl wr*, *aíl ben*, fel *aíl ddynes*, *aíl wraig*, *aíl law* : cad eraill a farnant y gellir dywedyd, *aíl dyn*, *aíl gwr*, *aíl pen*, a bod hynny yn fwy rhëolaidd. "Dwy droed sy ganddo, ac nid pedair," ebai Martha Pseudogam am ei gŵr² prin y mae holl helbulon Mrs. P. yn ddigon o esgus dros ei llediaith, oni b'ai i ni gofio mai yn fenywaidd y treiglir y gair *troed* yn nhafodiaeth ei gwlad hi. Gan nad oes yn y Gymraeg ffurf benodol i'r ganolryw, mae enwau pethau difywyd, a geiriau dansoddawl, yn cael eu troi yn wrywaidd neu fenywaidd, fel y byddo eu teithi yn gogwyddo. Ond y mae yn anhawdd penderfynu am rai geiriau

¹ "Trysorfa yr Athrawon :—tudal. 309.

² "Cyfarwyddwr Priodas," gan William Williams, Pant-y-Celyn :—tudal. 4. Mae yn waeth lyth yn yr argraffiad cyntaf, "*Dwy troed*," &c.

i ba ryw y perthynant; ar un golygiad, cymera hwy yn wrywaidd, golygiad arall a'u dengys yn fenywaidd. Y gair *cwpan* a dreiglir yn fenywaidd yn gyffredin yn Ngwynedd; fel hyn, *y gwpan, tair cwpan, cwpan fawr*, ac y mae y priodolder o gynnwys, dybygid, yn arwain i hyn; ond y mae y lafarog *w* yn ei ddynodi yn wrywaidd, a'r terfyniad *an* sy gyffredin i'r ddau ryw, megys yn *capan, carfan*, y naill yn wrywaidd a'r llall yn fenywaidd: felly yn y rhyw wrywaidd y ceir y gair *cwpan* yn mhob man yn y Bibl; megys "y cwpan hwn," "y cwpan a'r ddysgl." Mae amryw eiriau a gyfrifir yn wrywaidd yn nhafodiaeth y Gogledd, yn y Dehau yn cael eu treiglo yn fenywaidd, ac yn y gwrthwyneb.¹ Gellir ystyried rhai yn ammbenodol, a'u rhyw i'w benderfynu yn ol rhediad yr ymadrodd, fel y cawn anghreiffitiau aml yn y Bibl; megys, "y doethineb hwn," "y ddoethineb," "doethineb a adeiladodd ei thŷ;" "y duwiol anian;" "a'r bla a attaliwyd," &c. Etto gwrywaidd y cyfrifir *doethineb*, a benywaidd yw *anian*, ac y mae y gair *pla* wedi ei ddodi yn unffurf yn wrywaidd yn argraffiadau diweddaf Cymdeithas y Biblau.

4. Gwahaniaeth arall sydd yn arferiad y rhagenwau, yn enwedig y trydydd dynsawd unig, gwrywaidd, a'r lliosog.

Deheubarth.—Ef, efe, e, *unig*; hwy, hwynt, hwyntwy, *lliosog*.

Gwynedd.—O, fo, efo, neu y fo, *unig*; nhw, nhwy, nhwythau, *lliosog*.

Oddiwrth y gwahaniaeth hwn y tarddodd yr arfer ffol o alw gwŷr y Deheubarth yn "Hwyntwys," a "Hwntwy bach yn awr." Ond na fydded gwaeth gan y Deheuwyrr o herwydd hyn, oblegid mae y rhagenwau yn llawer mwy destlus ganddynt hwy na chan y Gogleddwyr yn gyffredin, megys y tystia y dywediadau anghryno a ganlyn; *gydag efo, efo fo, efo ag efo, efo ag o, gydag o, efo ag ethi hi, gydag ethyn nhw, efo nhwthe*, &c. Yn Ngwynedd, anfynych yr arferir y rhagenwau dangosiadol canolryw yn y rhif unigol, sef *hyn*, a *hyny*, ond arferir y gwrywaidd a benywaidd, *hwn*, *hwnw*, *hon*, *hono*, yn eu lle; ond yn y Deheubarth, arferir hwynt yn rhöolaidd, fel hyn, "y llwybr hyn," "y ffordd hyn," "yr hiraeth hyn," "y drefn hyn," er y dilynant y dull ffugrol hefyd yr un modd ag yn y Gogledd, megys, "y byd hwn," "y deyrnas hono."

IV. Sylwn yn nesaf ar yr amrywiaeth a gyfarfyddwn yn y perwyddiaid.

1. Yn y modd annherfynadwy: dringo, pwnio, swnio, costio, rhostio, barnu, damsang, meithrin, &c. a gymerant oiddodiad tra gwahanol yn nhafodiaeth Dyfed; megys, *dringad, pwno, swno, costi, rhosti, barni, damsiad, meithrynu*. Yr arddodiad *i*, pan fyddo yn arwydd o'r modd hwn, a ellir ei hebgor yn fynych, heb niweidio yr ystyr, megys yn y brawddegau canlynol:—

"A raid i groesau fyth yn llyn
[I] ganlyn f' enaid bant a bryn?"

"Dichon fod yn gymhwys [i] amlygu beth yw ein meddwl wrth y geiriau." "Mae y dyn yn cymeryd arno [i] fod yn ddoeth." "Gwelodd fod yn dda [i] gyhoeddi y celai y rhai a alwyd eu dysgu." "Fe welodd Duw fod yn dda [i] ddylfod ag ef i dref yn iach-lawen," elai y Fieor Prichard am Siarl I.: ond Gogleddwr a ddywedasai, "Gwelodd Duw fod yn dda

¹"Dr. Pughe's Grammar of the Welsh Language."—pp. 30, 31. "Hanes Cymru:"—tudal. 157, nodiad.

ddyfod ag ef adref yn iach a llawen," neu, "yn iach-lawen," gan adael heibio yr *i* o flaen y perwyddiad.

2. Mae y trydydd dynsawd unig o'r amser gorphenedig, modd mynegol, yn terfynu yn dra amrywiol. Y terfyniad mwyaf cyffredin yw *odd* (gynt, *awdd*) megys, carodd, dysgodd: arferir hefyd *es*, ac weithiau *is*; megys, rhoddes, gweles, gelwis, &c. "Ni weles da yn nhŷ ei dad, a hoffes da yn nhŷ ei chwegrwn." "Ni sengis yr ŷch ar dy droed." Ond heblaw y terfyniaid hyn, ceir yn y Ddeheubartheg *as*, *ws*, ac *wys*; megys cafas, rhanws, prynwys; "A ranwys nef a gafas." Mae yr englyn canlynol "i wraig o Went a gurasai ei gŵr," yn gynllun campus o'r terfyniad *ws*:—

"Yn awr y cwnws i'r nen—ei phastwn,
A ffustws ei gefen;
Cndews, tolcws ei dalcen,
Pan waeddws, baeddws ei ben."

W. Philip.

Wel, meddwn, un dost oedd hi, beth bynag, a thost oedd y bardd a'i darluniaid mor orchestol ar gan lleied o eiriau. Ystyrir fod gallu iaith yn cael ei arddangos yn odidog pan fyddo sain y geiriau yn ateb i'r synwyr. O herwydd hyn, golygir y llinellau canlynol yn dra chywrair a grymus:—

"Tân a dwr yn ymwrïaw
Yw'r taranau, dreigiau draw."

D. ab Gwilym.

"Uchel-gadr raiadr, dwr ewyn,—hydrwyllt,
Edrych arno 'n disgyn;
Crochwaedd y rhedlif crychwyn,
Synu, pensyfrdanu dyn."

Dewi Wyn.

Mae y bardd uchod, ysgatfydd, yn gwbl mor llwyddiannus. Drwy fynychu y terfyniad *ws*, darlunia mor fywiog y ffrwst, y trwst, yr ymwrwst, a'r ymosod, naturiol i'r fath ymgyrch, nes yw yn sylweddoli o flaen ein llygaid yr hyn a hanfodai yn unig yn nychymyg y prydydd. Ond i adael i'r beirdd farnu, awn rhagom.

Yn y parwyddiaid goddefol o'r amser hwn, arferir *ed* yn fynych yn lle *wyd*; megys, *rhoddod*, *tyned*, am rhoddwyd, tynwyd. "A aned tydi yn gyntaf dyn? a lunied dydi o flaen y brynïau?" *Job* xv. 7. Oddiwrth hyn, ymddengys fod *aed*, *caed*, *gwnaed*, *cloed*, *rhoed*, yn gywirach nag *aw'd*, *caw'd*, *gwnaw'd*, *clow'd*, *rhaw'd*.

3. Yn iaith sathredig y wlad, terfyna y trydydd dynsawd unig o'r amser dyfodol yn *iff*, yn lle *a*, megys *aiff*, *rhoddiff*, *dysgiff*, am *äa*, *rhodda*, *dysga*, neu *ä*, *rhydd*, *dysg*. Llygriad mawr yw hyn, meddai y Dr. Davies, ag oedd, yn ei amser ef, wedi bod mewn hir arferiad, yn llefariad ac ysgrifeniad yr iaith; ond y Dr. Pughe yn ei "Ramadeg," a'i cyfreithlona; a thybiai awdur "Y Brud a Sylwydd," (tudal. 40, nodiad) "mai olddodiad rhagenwol" ydyw, er y "gall fod yn llygriad o *f* (megys yn *ef*) i *ff*:" etto dichon fod "y ddwy lythyren yn arwyddo y rhagenw hwn." Fel hyn, gallai i beth, a ystyrir yn llygriad a gwall ar y cyntaf, ddyfod mewn amser, drwy arferiad cyffredin, yn rhan hanfodol o iaith. Pa fodd bynag, mae rhai ysgrifenyddyr da, megys Charles Edwards ac eraill, wedi defnyddio y terfyniad *iff*. Ond llygriad neu beidio, y mae erbyn ein dyddiau ni ddirywiad llawer gwaeth wedi cymeryd lle, sef troi yr *iff* yn *ith*; megys, *guneith*, *dywedith*, *cerddith*, yn lle *gwna*, *dyweda*, *cerdda*, neu *gwnaiff*, &c. Dylai areithwyr cyhoedd oehelyd y gwall hwn yn bendifaddu.

G3938

4. Cyfyd amrywiaeth arall o dreiglo yn rheolaidd rai perwyddiaid a ystyrir gan y gramadegwyr yn gyffredin yn afreolaidd neu ddiflygiol; *byw a marw* yn Ngwynedd, *cael a dawed* yn y Deheubarth, ydynt anghreiffitiai o hyn. Dywedir yn Eifionydd, "Gwlad uchel yw Penllyn; ni *fywiwn* i ddim yno pe y cawn lawer am hyny." "Aeth Madawg i America, ac yno y *marwodd* o." "Pa hyd y *bywiodd* o, nis gŵyr neb." "Os *bywi* di, neu os *marwi*"—h. y. "Os byddi fyw, neu os marw a wnai." Yn Ngwent, dywedant, "Pe *celai* [caelai] e fyned," yn lle "Pe cai efe fyned." "Fel y *celent* [caelent] ddaioni," yn lle, "Fel y caent ddaioni." Yn gyffredin, treigilir y barwyddiad hon oddiwrth y trydydd dynsawd unig o'r amser dyfodol, modd mynegadwy, ac nid oddiwrth ei ffurf yn y modd annherfynadwy, sef *ca*, ac nid *cael*. Yn lle *dawed*, *dawaf*, *dawant*, *dere*, *dewch*, *dawer*, *dewir*, &c., y Deheuwyrr—arferir *dysod*, *deuaf*, *deuant*, *tyred*, (*dyred*) *dowch*, *deuer*, *doir*, &c., yn y Gogledd. Mae *buo* yn lle *bu*, ac *eutho* yn lle *aethum*, yn anghywir.

V. Annymunol iawn i glust fanol yw clywed geiriau yn cael eu harfer yn amhriodol, er fod rhai dywediadau o'r fath yn ddigrif eu gwala. Nodwn ychydig o lawer a ellid goffâu:—"Dynes lân *arw*;" "benyw lân *fudr* yw hi;" "dyma beth elws *ofnadwy*;" "gwyach *aflawen*;" "da *gyn-ddeiriog*;" cryf *anafus*."

"Nid oes un o'r rhai'n yn cysgu
Ddydd na nos, ond *golchi* canu."

Felly y dywedodd ficer Llanymddyfri¹ am y saint yn y nef, gan feddwl eu bod yn "canu yn egniol a didor." Yr un modd dywedir, "golchi pregethu," a "golchi arni hi," am bregethu, neu wneuthur rhywbeth yn egniol. Mae y llygriadau gwrthun o'r geiriau uchod, a'u cyffelyb, sydd yn ffynnu ymhlith y gwerinos anwybodus, yn anoddefol dros ben: megys "rhaf *gynnddeirus*," "ofnaswy," "afnadsan," "*shoe* o dda," ynghyd â llawer o eiriau hyllion a disynwyr a arferir yn lle tyngu amlwg halogedig, ac heb fod ddim gwell na hyny. Dywedir yn Ardudwy, mai cynnyrch sir Fôn yw *afnadsan*; os gwir hyny, gresyn oedd adeiladu Pont ar Fennai i drosglwyddo oddiyno y fath newydd diwerth, neu na chadwasid y toll-borth yn fwy manwl. O ba le bynag yr hanodd, dylasai yn mhob modd gael ei gadw gartref.

VI. Mae bod gwahanol eiriau yn arwyddo yr un pethau yn peri gwa-haniaeth, ond ar yr un pryd mae yn brawf o helaethrwydd yr iaith. Enwau gwrthddrychau, creaduriaid, coed, llysiau, offerynnau gwaith a chelfyddyd, nwyddau, &c. ydynt amrywiol iawn mewn gwahanol ardaloedd. Nis gellir yma ond nodi ychydig o anghreiffitiai; megys, ammodau, telerau; ardreth, rhent; arenau, llesnau, elwl; bagad, llu, torf, tyrfa; claddedig-aeth, cynhebrwng; deffol, dethol, ethol, dewis; dôr, drws; edliw, ymliw, lliwied, dannod; ffêr, migwrn, bigwrn; ffwrn, *pobty*; tŷ ffwrn (*pobty*), *tŷ-pobty*; gwrych, cae, perthgae; haid, barlys (h. y. *bara-lys*); iwin, ffyrnig, gorwyllt; lloer, lleuad; llawn lloer, llawn lleuad, llawn lluned, llawn lloned; lloergan, lloergan lleuad, goleu-leuad, goleu belydr, "mae hi yn oleu belyd' heno;" mell, lluched, dreigiau (*mellt dystaw*); niwl, nifwl, nudd, caddug, ysmwean; porfa, porfel; cenllysg, cesair; arad, aradr,

¹ "Canwyll y Cymry:"—tudal. 288.

(a elwir yn Ngwynedd) gwŷdd, gwŷdd-arad, gwŷdd aredig. Y gyfarwydd (*glow-worm*), goleuen, ll. goleuod, y fagien, a elwir yn Eifionydd, "y tân bach diniwed."

Enwau cyfathrach ydynt dra amrywiol; megys—

GWYNEDD.	POWYS.	DEHEUBARTH.
taid	tad da	tad cu
nain	mam dda	mam gu
tad yn nghyfraith	chwegrwn	Felly yn y Bibl. Saes. <i>Father, &c. in law.</i> Mae Powys a Deheubarth yr un modd am yr enwau blaenaf.
mam yn nghyfraith	chwegr	
mab yn nghyfraith	daw	
merch yn nghyfraith	gwaudd	
tad yn nghyfraith	tad gwyn	llysdad (<i>step-father</i>)
mam yn nghyfraith	mam wen	llys-fam (<i>step-mother</i>)
mab yn nghyfraith	mab gwyn	llys-fab (<i>step-son</i>)
merch yn nghyfraith	merch wen	llys-ferch (<i>step-daughter</i>)
plant yn nghyfraith	plant gwynion	llys-blant (<i>step-children</i>)

Wrth hyn, gwelwn nad oes yr un gair sathredig yn Ngwynedd i wahaniaethu rhwng *chwegrwn* a *llysdad*, &c., er fod y berthynas yn wahanol: yr hyn sydd yn fyddra y byddai da ei ddiwygio, drwy ddwyn geiriau y Bibl i arferiad cyffredin.

Yn Neheubarth a Phowys, arferir y gair *ysgadan* (oddiwrth *câd*, yn arwyddo lliosogrwydd y pysg hyny), ond yn Ngwynedd, *penwag* a *phenweig*, a ddywedir; ond pa briodoldeb sydd yn yr enw nis gallwn ddirnad, os nad yw yn llygriad o *penaig* (unig, *peneigyn*) gair tra chymhwys am y pysg lliosocaf eu heigiad yn y moroedd hyn, un o ba rai a ddwg y nifer mawr 68,606 o silod; ac felly mae y ddau air yn gyfystyr.

2. Mae yr un geiriau hefyd yn fynych yn arwyddo gwahanol bethau; y naill ardal yn eu cymeryd mewn un ystyr, a'r llall mewn ystyr arall. *Gwirion* yn y Gogledd a arwydda *ffol*; ond yn y Deheu, yn fwy priodol, arwydda *diniwed*; yr un modd yn y Bibl a'r Llyfr Gweddi, "gwaed gwirion," "gŵyl y gwirioniaid," sef bechgyn bach Bethlehem.

Cwt, cut.—Pan alwodd ein hybarch gyfaill Erfyl gyda'r enwog Dewi Wyn, yn Mhwlheli, ebai Dewi, "Gwell genyf fod gyda bardd, pe b'ai ond mewn *cut* mochyn, na chyda llawer boneddwr yn ei balas."¹ Mae yn dra thebyg mai *cwt* mochyn a ddywedodd y bardd; oblegid felly yn gyffredin y dywedir yn Llŷn ac Eifionydd; oddieithr i Ddewi arferyd y gair *cut* o foesgarweh tuag at ei gyfaill, am mai dyna y gair a ddëallir yn ngororau Caereinion. Wrth y gair *cwt* yno y meddylir *godre* neu *losgwrn*.

3. Dywediadau llëol a phriod-ddulliau amrywiol, ydynt dra lliosog, ac yn gwneyd eu rhan o'r gwahaniaeth yn amrywiaith Gwynedd ac eiddo y Deheubarth. Coflawm yma ychydig o'r rhai mwyaf hynod a ddaeth dan ein sylw, perthynol i'r ddwy dalaeth, gan eu cyferbynu â'u gilydd.

GWYNEDD.	DEHEUBARTH.	GWYNEDD.	DEHEUBARTH.
allan	i maes, i faes	yr hawg iawn	am hir amser (i ddyfod)
allan o law	maes o law		
o hyd, trwy gydol		<i>bod ag un</i>	bob un, bob yr un
yr amser	awr ac orig	<i>bod y pen</i>	bob pen, bob copa
byth a hefyd	awr ac onyd	da iawn	iawn-dda
yrwan (yr awron)	yn awr	da i'r pen draw	da buwr
yr hawg	onyd o amser (i ddyfod)	cannu yn iach, kannu	
		<i>ffurwel</i>	<i>ffurwelo</i>

¹ "Blodau Arfon"—tudal. 31.

GWYNEDD.
câd ynghudyn
am, achos, oblegid
ynghylch, oddeutu
i mi
i lawr, ymaith
i'w (*i ei, i eu*)

O bobl ! O wyr !
bobl awyl !
mai — "clywsom
mai ef oedd o"

DEHEUBARTH.
pen yn erfid
o waith
oboutu
i fi
i bant, i bantag o'
iddei, iddeu, (*be-
us yw, "i'w ei,"
"i'w eu"*)

hawyr !
hawyr bach !
taw, tai — "clyw-
som taw e oedd"

GWYNEDD.
fel hyn (mal hyn)
i fyny, uchod
i lawr, isod
acw
hyn acw
codi
tipyn — "tipyn o
ffordd"
"eryn dipyn o
ffordd"

DEHEUBARTH.
yn llyn
fry, "fry ar y lan"
obry, i waered
oco, onco
onco
ewnu
cetyn — "cetyn o
ffordd"
"cetyn dïogel o
ffordd"

Hela, hala. — "*Hala* hi i'r lân;" h. y. danfon hi i fynu. "Wedi hela triugain mlwydd," sef wedi treulio, neu fyw gynnifer o flyneddau. Mae *hala* yn air o ddefnydd mawr gan y Deheuwyrr. *Hôl, nôl.* — "Dos i hôl dŵr," (Gwent); "dos i nôl dŵr," (Gwynedd); "dos i geisio dŵr," "dos i ymofyn dŵr." "O led y pen," (De); h. y. yn llydan agored, neu yn lledfan agored." "Mae drws yr ysgubor yn lledfan agored." "Nid oes dim o hano i yn ei nabod e; nid oes dim o hano fe yno yn awr;" h. y. "Nid wyf fi yn ei nabod; nid yw efe yno yn awr."

Pan ddaeth hymnau y Parch. W. Williams, Pant-y-Celyn, gyntaf allan, yr oedd rhai ymadroddion ynddynt, o briod-ddull y Ddeheubartheg, yn swnio yn dra dyeithr yn nghlustiau pobl y Gogledd, am nad oeddynt yn eu deall. Hyn a barodd i rai yn Ngwynedd, megys y Parch. Robert Jones, yn y "Grawn-sypiau," newid ychydig arnynt tuag at eu gwneyd yn fwy dealladwy, fel y byddent yn fwy derbyniol gan y gwerin bobl. Y Deheuwyrr oeddynt anfoddlawn i hyny. Clywsom am henafgwr parchus o Geredigion, oedd yn byw yn Llundain, ag oedd mewn petrusder mawr pa un a bechodd fwyaf, ai Peter Williams, drwy newid cyfieithiad awdurdodedig y Bibl, ai Robert Jones, wrth newid hymnau W. Williams. Mab yr anfarwol fardd, y Parch. John Williams, pan ddangoswyd y "Grawn-sypiau" iddo gyntaf, a dafodd y llyfr o'i law gyda diystyrweh; ac wrth ymddyddan â dau weinidog o Wynedd, oeddynt ar eu taith ryw dro yn swydd Gaerfyrddin, dywedodd, "Mae pobl y Gogledd oco yn newid hymnau fy nhad; maent yn tynu y gair 'maes' i maes o honynt." Yna chwanegai yn lled oganllyd, "Nid oes o hona i yn gwybod beth a roddant yn ei le yn yr hymn hono—

'O'r graig y mae'n dylifo ma's
Yn afon ddysglaer loyw lla's.'

rhywbeth tebyg i hyn ond odid—

'O'r graig y mae'n dylifo allan,
Yn afon fawr hyd ben draw'r berllan.'

Ond beth a ddywedasai efe yn awr, pe buasai yn fyw, wrth weled y Deheuwyrr eu hunain wedi cymeryd mewn llaw eu newid? Mae pobl y Gogledd erbyn hyn, pa fodd bynag, wedi ymgynncfio â'r dywediadau, yn awr, i bant, i maes, i dre', &c. fel nad ydynt mwyach yn dramgwyddus iddynt.

VII. Cymreigio Saesoneg sydd wedi bod yn achos o lawer o gymysgedd, llygriad, ac anurddiad, ar yr iaith: megys, *supposo*, *downto*, *repento*, *belongo*, *bilyngied*, *leicio*, *loitran*, *lulan*; *begeriaid*, yn lle cardotwyr; *drachtio*, yn lle yfed, trafflyneu; *landio*, yn lle glanio, tirio; *ledio*, yn lle

arwain, tywyso; *siort* (*sort*), yn lle math, &c. Gresyn oedd i eiriau mor anffurfiol ag yw *sassiwn*, *seiat*, *cwrdd preifat*, &c. ddyfod i arferiad mor gyffredin ymhlith crefyddwyr, yn lle geiriau Cymreig dilediaith a allesid eu defnyddio; megys, cymanfa, cymdeithasfa, cymdeithas eglwysig, cyfarfod neillduol, &c. Mae britho pregethau â geiriau Seisonig dysgedig, megys, *inference*, *instance*, *idea*, *proposition*, &c. yn eu gwneyd i ryw raddau yn annëalladwy i'r gwerinos uniaith; a gwell, dybygem, fyddai rhoddi y dull hyny heibio, ac ymostwng i lefaru yn nes at eu hamgyffred-iadau.

Gwŷr Dyfed ynt haeddiannol o glod am gadw ar arfer yr hen air Cymraeg *anner* (buwch ieuane) am yr hwn ni fedd y Gogleddwyr un gair, namyn *heffer*, sef llygriad o'r Saesoneg *heifer*. Ond y maent hwythau heb un addewid; *promais* a *promiseo* sydd ganddynt am y cwbl, ac i hyny y maent yn *trusto*. Gallai y Cymry droi y naill hanner o'r Saesoneg yn gyfryw Gymraeg a hyn; ond, hawyr! pa les fyddai?

VIII. Yn olaf, nodwn un peth etto sydd yn gwahaniaethu trigolion gwahanol barthau y wlad yn eu dull o siarad; sef yw hyny, yr amrywiol enwau bychanigion a roddant ar eu gilydd yn lle eu henwau priodol. Am John, dywedir *Jack*, *Jacky*, *Jacko*, *Sion*, *Sionyn*, *Siac*, *Siacci*: yn lle Jane, gelwir *Jenny*, *Jinny*, *Jinno*, *Jinten*, *Siân*, *Siani*, *Sieni*, *Sianten*. Gwilym neu William, a lysenwir yn *Wil*, *Bil*, *Bilo*, *Bilws*, *Bili*; ac am Catherine neu Katherina, *Catrin*, *Kate*, *Kit*, *Kitty*, *Catti*, *Cadi*, *Cadan*, *Cadws*, *Cadsan*, *Cadsen*, *Kitsen*. Mae yr amrywiaethau rhyfedd ac anghysain hyn i'w clywed mewn gwahanol ardaloedd, a chyffelyb lysenwau ymron ar yr holl enwau mwyaf arferedig, er mawr waradwydd i'r trigolion, a diystyrwech ar eu henwau bedydd. Ymdrechadau diwyd gyda'r genedl ieuane a'i dygai i fynu yn ddyeithr i'r arfer ddrwg hon.

Weithian, y Cymry mwynlan cariadus, wele ni wedi gweithio ein ffordd trwy y dasg ddrysaf ac annbybenaf a gymerasom erioed mewn llaw. Cydnabyddwn mai yn ddigon amherflaith ei cyflawnasom, ond nid ydym yn gwybod ddarfod i ni adael dim o bwys a berthynai i'r testun heb ei grybwyll; er y gallasem ymhelaethu llawer ar amryw bethau pe buasai ein terfynau yn caniatáu. Mae y maes yn ehelaeth, ac nis gwyddom am neb wedi ei anturio yn y dull hwn o'r blaen; yr ydym yn meddwl ei fod yn teilyngu sylw llënyddion ein gwlad. Gwnaethom ein goreu i wahaniaethu rhwng y gwyech a'r gwael, gan ganmawl yr hyn sy ganmoladwy; a lle y bu gorfod arnom feio, gwnaethom hyny, nid i'r dyben o waradwyddo, ond yn hytrach er mwyn hylwybro tuag at ddiwygiad. Fe ganfyddir yn hawdd, wrth yr hyn a draethasom, leied sy gan y naill dalaeth, neu y naill ardal, i edliw i'r llall, o ran yr iaith: mae rhyw neillduolrwydd gwallus yn perthynu i dafodiaeth pob cymydogaeith, er nad yr un peth yn mhob lle. Yn gyffredin, ystyrir pobl y Deheubarth at eu gilydd yn fywiocach eu tymherau na brodorion y Gogledd, ac o herwydd hyn bod eu Cymraeg yn fërach, a'u siarad yn gyflymach na'r eiddynt hwy. Ond nid yw hyn yn yr helaethrwydd o hono idd ei gymeryd yn ganmoliaeth: mae y Wyneddaeg ar amryw ystyriaethau yn fwy cryno a destlus, a chynaniad y llafariad ynddi yn fwy cyflawn a chywir; ac y mae yn llai cymysgedig â llygriadau Seis'nigaidd. Yn ei phurdeb cynwynawl, wedi bwrw ymaith yr hyn sy feius, mae ei iaith ei hun yn hardd iawn yn ngenau y Deheuwr parabl-bêr;

G3940c

a'r un modd yn ngenau y Gogleddwr y mae yr eiddo yntau ; ac yna leied yw y gwahaniaeth rhyngddynt.

“ CYMRU, CYMRO, CYMRAEG ! ”

Y LOLARDIAID.

DYMA yr enw â pha un y dynodid Protestaniaid y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg ; sef y bobl a agorasant eu llygaid ar gyfeiliornadau yr Eglwys Babaid yn yr oes hono, ac a nerthwyd yn y ffydd i'w gwrthsefyll. Galwyd hwynt ar yr enw hwn, i'w gwarthruddo, oddiwrth un Walter Lollard, un o wrthwynebwyr anghrist ar y cyfandir, yr hwn a ddechreuodd dystiolaethu oddeutu y flwyddyn 1315.

Prin y gellir tybied fod gwir grefydd ag anadl ynddi o fewn Ynys Brydain yr amser hwnw. Yr oedd y Bibl yn llyfr anadnabyddus a seliedig, a'r athrawiaethau a gynnwysir ynddo wedi eu claddu allan o olwg, odditan bentyrau ar bentyrau o draddodiadau dynol. Ac yr oedd Eglwys Rhufain yn ei chyflawn nerth wedi ymwisgo ag awdurdod oruchel ac ofnadwy, ac yn arfer hono hyd yr eithaf ar gydwybodau dynion. Yr oedd ofergoeledd a thwyll wedi taflu y gwirionedd o'r neilldu er ys cannoedd o flyneddau cyn hyn, ac wedi myned rhagddynt mewn dylanwad ar breswylwyr y ddaear, i ychwanegu y naill gyfeiliornad at y llall, fel, erbyn y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg, yr oedd yr athrawiaethau syml a'r gorchymynion pur a ddysgwyd gan yr Iesu yn cael eu cwbl wadu gan y rhai a broffesent eu hunain ei unig ganlynwyr Ef.

Fel y caffo ein darllenwyr olwg ar bynciau crêd yr Eglwys Babaid, nyni a roddwn i lawr ei hathrawiaethau sylfaenol hi, y rhai sydd gynnwysedig yn nghredo y pab Pius IV. Ac fel hyn y dywed hwnw :—

“ 1. Yr ydwyf yn y modd mwyaf dianwadal yn derbyn ac yn cofleidio y traddodiadau apostolaidd ac eglwysaidd, ynghyda holl ddefodau a sefydliadau eraill Eglwys Rhufain.

“ 2. Yr ydwyf hefyd yn derbyn yr ysgrythyrau sanctaidd yn ol yr ystyr hwnw yn mha un y mae ein mam sanctaidd, yr eglwys, wedi, ac yn eu derbyn ; i'r hon y perthyn barnu gwir ystyr a dëongliad yr ysgrythyrau : ac nis derbynïaf, ac nis dëonglaf hwynt ond yn ol cydsyniad unfrydol y tadau.

“ 3. Yr ydwyf yn proffesu fod yn yr oruchwyliaeth newydd, a sefydlwyd gan Iesu Grist ein Harglwydd, saith o wirioneddol a phriodol sacramentau, y rhai ydynt anghenrheidiol i iachawdwriaeth dynolryw, ond nid yr oll o honynt i bob un ; sef, bedydd, confirmasiwn, y cymun, penydiaeth, yr enciniad, eithaf-urddau, a phriodas ; a'u bod hwy yn gweinyddu gras : ac nas gellir ailweinyddu bedydd, confirmasiwn, nac urddau, heb gysegr-halodedigaeth. Yr wyf hefyd yn derbyn ac yn cymeradwyo y defodau derbyniedig a chymeradwyol yn yr Eglwys Gatholig, y rhai a arferir yn ngweinyddiad yr holl sacramentau crybwylledig.

“ 4. Yr wyf yn cofleidio ac yn derbyn yr oll a phob un o'r pethau a gawsant eu penderfynu a'u cyhoeddi yn nghyngor sanctaidd Trent, yn mherthynas i bechod gwreiddiol a chyfiawnhad.

“ 5. Yr wyf yn proffesu yr un modd, fod yn yr offeren aberth gwirioneddol, a phriodol, a chymodol, yn cael ei gyflwyno i Dduw dros y byw a'r marw ; a bod sacrament sancteiddiaf y cymun yn cynnwys corff a gwaed ynghydag enaid a Duwdod ein Harglwydd Iesu Grist, a hyn yn wirioneddol, yn ddiledrith, ac yn sylweddol : a bod y

G3940d